# Cofnodion Cyngor Cymuned Pentir

Cyfarfod Rhithiol o'r Cyngor Llawn Nos Iau 14egd o Hydref 2021

1. **Presennol:** Cynghorwyr D W Jones; M. Lynch; E. Jones; M. Baines; J. Pierce; B.Jones; a'r Clerc E Jones

2. **Ymddiheuriadau:**
   Cynghorwyr D. Jones-Morris; J. Griffiths, L .A. James; J Lewis; H Griffiths; T A Williams;

Cadeirwyd y cyfarfod a traddodwyd gweddi gan y Cyng D W Jones

3. **Datgan buddiant**
   Esbonwyd eto y broses ynglyn a datgan buddiant yn rhithiol.
   Dim datganiad
4. **Derbyn cofnodion** 09fed o Fedi 2021 – Derbynwyd y cofnodion fel rhai cywir
   Cyng B. Jones yn cynnig a Cyng E Jones yn eilio
5. **Materion yn Codi o'r cofnodion**
   Dim nad oedd wedi eu cynnwys o fewn yr agenda
6. **Materion ariannol**
   - Cyfarfod IBC 29ain o Fedi 2021

   'Roedd y fantolen ariannol misol wedi ei rhannu'n electronig yn dangos gwariant a derbyniadau yn ystod Medi ag yn dangos swm o £53,191.96 yn y cyfrif Cyfredol a £35,038.51 yn y cyfrif cadw.
   - **Ceisiadau Nawdd**
     i. Llais Ogwan Cais wedi dod i law ond hen fantolen
        **Clerc wedi gysylltu am fantolen gyfredol**
     ii. Cais wedi ei dderbyn gan Clwb Peldroed Iau Penrhosgarnedd am gyfraniad tuag at peiriant Diffib i'r Clwb. IBC yn argymell bod Cyngor Pentir fel rhan o'i rhwydwaith Peiriannau yn gosod peiriant ar adeilad y Clwb fyddai ar gael hefyd i'r gymuned ehangach a bod arwyddion yn cael eu gosod ar y llwybrau cyfagos.
        **Cafodd yr argymhelliad ei dderbyn a'i gymeradwyo**
        **Clerc i wneud treniadau**
   - **Taliadau** Cadarhau talu y cyfan
   - **Archwilwyr Allannol** Ymateb wedi dod yn argymell fod rhybudd yn cael ei roi allan mewn mannau cuhoeddus (Wefan) fod y cyfrifon wedi eu cwblhau i'w archwylio ond nad oedd yr adroddiad derfynnol wedi ei chwblhau. **Clerc eisioes wedi ymateb**
7. **Logo newydd**
   Y ddylunwraig a'r Cyng L A James am drafod ymhellach hefo hi rwan am scopio'r gwaith a threfnu lansiad ond Cyng L A James wedi methu ymuno heno

8. **Cynllunio** C21/0949/25/DT Belmont Ffordd Menai, Penrhosgarnedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2LS Estyniadau i'r modurdy er mwyn galluogi creu gofod swyddfa ar gyfer defnydd yr ymgeisydd
   **Dim Gwrthwynebiad**
   C21/0927/25/LL Ysbyty Gwynedd, Bangor, LL57 2PW Lleoli adeilad symudol dros dro ar gyfer defnydd yr RVS am 2 mlynedd.
   **Dim Gwrthwynebiad**

9. **Materion y Clerc**
   - **Cais Nawdd** **Ty Gobaith** Cais wedi dod o'i Pencadlys oedd ddim o bosib yn ymwybodol ein bod wedi derbyn nawdd **yn** Mehefin eleni

- **Cynllun Busnes** Oherwydd anhwylder iechyd nid oedd y grwp wedi cyfarfod ar y dyddiad oedd wedi ei gytuno arno a felly angen ail drefnu
- **Septic Tanc** Cyswllt wedi ei wneud a Dwr Cymru a trefniant i achwylio y sustem garffosiaeth wedi ei wneud ar gyfer 19 o Hydref Yn anffodus mae ein peiriannydd yn yr ysbyty hefyd
- **Blodau Gwyllt** Cyngor Gwynedd wedi cysylltu yn ymddiheuro am safon y blodau ag am gymeryd profion pridd yn yr ardal blanwyd
- **Cyfarfodydd i'r dyfodol** Trafodwyd a cytunwyd i barhau fel yr yda ni ar hyn o bryd Hynny yw yn rhithiol yn hytrach na wyneb yn wyneb
- **Cofrestr Risg**
    - Cae Chwarae mae Gwynedd yn awyddus i ni gymeryd cyfrifoldeb drostynt Clerc wedi codi'r mater hefo'r Swyddog Adfywio fydd yn dod i'n cyfarfod yn yr IBC nesaf 27/10/21
- **Ardal ni 2035** Ymatebion os oes ond cadarnhau fod y Swyddog Adfywio Bro yn mynychu yr IBC ar 27ain o Hydref i drafod ag ateb unrhyw gwestiynnau
  **Cytunwyd gwahodd pawb i'r cyfarfod hwnnw ag i'r cyfarfod gychwyn am 6.30**

**10.** Materion y Cynghorwyr

- **Cyng D W Jones** Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Ffiniau etholiadol Amlinnelwyd mae cyfarwyddyd o Lundain oedd hwn i leihau 20% o aelodau Seneddol Cymru yn Llundain. Datganwyd pryder ein bod yn ymddangos yn union ar y ffin rhwng Aberconwy a Dwyfor/Meirionydd ac o gofio trafferthion fu pan oedd Bangor dan glo ond Penrhosgarnedd ddim Cyng M Baines am holi barn Cyngor Dinas Bangor tra byddai y Clerc yn holi Cynghorau Dyffryn Ogwen
- **Cyng B Jones** Cynnig ein bod yn llongyfarch Cyngor Conwy argymell gwrthod caniatad i Awel y Mor **– nid oedd eilydd i'r cynnig**
- **Cyng B Jones** Cynnig ein bod yn cefnogi ymgyrch Unllais Cymru i geisio gorfodi trwyddedu Jetskis **Cytunwyd a gofyn i'r Clerc gysylltu ag Unllais**
- **Cyng J Griffiths** Mynegwyd pryder am y datblygiadau / carafan wrth lon Penhower Caerhun **Clerc i gysylltu a'r Adran Cynllunio yn Gwynedd**
- **Cyng M Baines** Mike Plant Swyddog Diogelwch Cymunedol wedi cysylltu a hi yn holi am grwpiau yn yr ardal allai elwa o drafod am ei waith gyda'r Gwasanaeth Tan ag Achub Gogledd Cymru **Cytunwyd ei wahodd i'n cyfarfod nesaf yn Tachwedd**

**Daeth y Cyfarfod i ben 8.45**

ML
11/11/2021